



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Simon Dean
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Uned 2 Charnwood Court
Parc Nantgarw
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Gorffennaf 2011

Annwyl Mr Dean,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth, cais am gyfarfod a
Hysbysiad Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 15
Awst 2011**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sydd wedi'u neilltuo i lunio ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad yr Adolygiad. Calonddid i mi oedd yr ymatebion addawol a gawsom ac rwy'n teimlo eu bod yn dangos gwir awydd i wella profiad pobl hŷn yn yr ysbyty.

Pan anfonais gopiâu o'r Adroddiad ar yr Adolygiad, gofynnais i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ymateb i'r argymhellion, i amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Ymddiriedolaeth yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau.

Ers i ymateb Ymddiriedolaeth GIG Felindre ddod i law, mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb. Rydyn ni wedi cael cymorth hefyd gan banel o


gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 yn datgan bod rhaid i'r wybodaeth a roddir imi gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre fod yn ddigon imi benderfynu a gydymffurfir â'm hargymhellion i neu beidio, neu roi digon o esboniad pam na chydymffurfir ag argymhelliad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu imi anfon Hysbysiad Ysgrifenedig i ofyn am ragor o wybodaeth gan y cyrff hynny sydd heb fy narbwyllto eto y bydd fy argymhellion yn cael eu dilyn. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Felindre'n cydnabod y materion, ond nid yw'r ymateb yn rhoi'r wybodaeth y mae arna i ei hangen. Felly, yn unol â'r Rheoliadau, mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Ysgrifenedig i Felindre i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â phob un o'r 12 argymhelliad. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Llun 15 Awst am 5pm fan bellaf**.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Ysgrifenedig i gorff penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â'r ymateb a anfonwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Hoffwn gyfarfod â chi i drafod yr wybodaeth bellach y mae'n rhaid ei darparu. Rwy'n awgrymu ein bod yn cyfarfod ar brynhawn 25 neu 26 Gorffennaf 2011. Byddwch cystal â chysylltu â'm cynorthwyydd personol Sue Hayward i gadarnhau dyddiad ac amser ar gyfer y cyfarfod.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru